The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Piblinell $CO_2$ HyNet |
| **Cyfeirnod ffeil** | EN070007 |
| **Statws** | Terfynol |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 15 Rhagfyr 2020 |
| **Cyfarfod gydag** | ENI, Progressive Energy Limited, WSP |
| **Lleoliad** | Telegynhadledd |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod Cychwynnol |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at chwe mis cyn cyhoeddi'r nodyn o'r cyfarfod, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi'i gyflwyno (pe byddai Ymgeisydd yn gofyn amdano am resymau masnachol).

## Manylion Tîm yr Ymgeisydd

Bydd datblygiad Piblinell $CO_2$ HyNet yn cael ei arwain gan Eni UK a Progressive Energy Limited (PEL). Yr Ymgeisydd am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fydd Eni. WSP, sy'n gweithredu ar ran Eni/PEL, fydd yr asiant ar gyfer y prosiect a bydd Burges Salmon yn gweithredu fel y cynghorwyr cyfreithiol.

## Manylion y Datblygiad Arfaethedig

Mae HyNet North West (y datblygiad arfaethedig) yn brosiect Hydrogen/Dal a Storio Carbon (CCS) cadwyn lawn, integredig sy'n ceisio helpu i gyflawni sefyllfa sero-net ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Bydd y datblygiad yn gwasanaethu Manceinion, Lerpwl, Swydd Gaer, Warrington a Gogledd Cymru. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Gosodiad ar Ben Tir (AGI) Grinsome Road yn Ffatri Gwrtaith Ince;
- Piblinell 12" newydd ar y tir o AGI Ffatri Gwrtaith Ince i AGI Safle Alcohols;
- AGI Safle Alcohols gerllaw'r ffatri cynhyrchu hydrogen o fewn ffin Purfa Stanlow;

- Piblinell 36” newydd ar y tir o Burfa Stanlow i AGI Cei Connah;
- AGI Cei Connah wrth y cysylltiad rhwng y biblinell newydd a’r biblinell bresennol;
- Addasu’r biblinell nwy naturiol 24” bresennol rhwng Cei Connah a’r Parlwr Du i gludo $CO_2$, gan gynnwys gosod falfiau bloc newydd ac efallai cryfhau’r bibell mewn sawl lleoliad;
- Ffatri Prosesu Nwy bresennol yn y Parlwr Du (i’w chadarnhau) – lle y bydd offer cywasgu a systemau oeri a phŵer ychwanegol yn cael eu hychwanegu.

Bwriedir i’r holl $CO_2$ a ddelir gael ei ddal a’i storio ar y môr tra bydd yr hydrogen a gynhyrchir yn cael ei ddosbarthu trwy biblinellau hydrogen newydd, ac yn cael ei ddefnyddio fel tanwydd ym mhurfa Stanlow gyda rhywfaint yn cael ei gymysgu gyda nwy naturiol yn y rhwydwaith dosbarthu piblinell lleol.

## Rhaglen Ganiatáu

Mae’r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno cais cwmpasu Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) yn ystod Chwarter 1/Chwarter 2 2021. Esboniodd yr Ymgeisydd hyd a lled presennol y ffin llinell goch, gan nodi y byddai’r ffin yn cael ei mireinio yn ystod y broses EIA. Pwysleisiodd yr Arolygiaeth y byddai’r gallu i gwmpasu agweddau a materion er mwyn darparu asesiad mwy cymesur yn dibynnu’n rhannol ar faint o sicrwydd y gellid ei roi ynglŷn â hyd a lled y ffin llinell goch honno.

Mae’r Arolygiaeth yn gofyn am sicrwydd ynglŷn â chaniatáu’r biblinell $CO_2$, o ystyried bod cais DCO Piblinell Dal a Storio Carbon Swydd Efrog a Humber wedi methu â chael caniatâd datblygu. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod hyn wedi cael ei ystyried, a’i fod yn credu bod y cyd-destun gwleidyddol wedi newid i gefnogi datblygiad o’r natur hon ac na fydd sefyllfa sero-net yn cael ei chyflawni heb ddefnyddio Dal a Storio Carbon.

Mae’r Arolygiaeth yn cynghori’r Ymgeisydd i ystyried pwysigrwydd ymgysylltu â Chymru ynglŷn â’r datblygiad arfaethedig. Cynigiodd yr Arolygiaeth arweiniad pellach ar hyn os bydd ei angen ar yr Ymgeisydd. Yn arbennig, cynghorodd yr Arolygiaeth yr Ymgeisydd i fod yn ymwybodol o ofynion y Gymraeg.

## Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Dywedodd yr Ymgeisydd fod ymgysylltu lleol yn awgrymu bod cefnogaeth i’r datblygiad arfaethedig, a bod awdurdodau lleol wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd. Felly, mae cymhelliad ac awydd yn bodoli ar gyfer prosiectau sy’n defnyddio technolegau datgarboneiddio. Mae’r Ymgeisydd wedi derbyn llythyrau cefnogaeth gan arweinwyr metropolitan yn yr ardal o amgylch y datblygiad arfaethedig.

## Ymgynghoriad Arfaethedig

Mae’r Ymgeisydd yn bwriadu cynnal dau ymgynghoriad. Disgwylir i’r ymgynghoriad anstatudol ddechrau yn ystod Chwarter 1/Chwarter 2 2021, a chadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd yn gwbl rithwir, fwy na thebyg. Bwriedir i’r ymgynghoriad statudol gael ei gynnal yn ystod Chwarter 3/Chwarter 4 2021, yn barod ar gyfer cyflwyno cais yn gynnar yn 2022. Mae’r Ymgeisydd yn bwriadu cwblhau’r ymgynghoriad statudol gan

ddefnyddio digwyddiadau rhithwir a chyhoeddus, yn dibynnu ar y cyfyngiadau a fydd ar waith ar y pryd.

## Caffael Gorfodol a Mynediad i Dir

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd y bydd pwerau Caffael Gorfodol yn cael eu ceisio trwy'r DCO. Holodd yr Arolygiaeth sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu cael mynediad i dir at ddibenion arolygon. Dywedodd yr Ymgeisydd ei fod yn debygol o ddibynnu ar bwerau o dan a172 Deddf Tai a Chynllunio 2016. Trafododd yr Arolygiaeth oblygiadau i'r rhaglen yn sgil defnyddio adran 53 y Ddeddf Cynllunio.

## Penderfyniadau penodol/ angen gwaith dilynol?

Cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol:

- Trefnu cyfarfod dilynol ym mis Ionawr.
- Penderfynu ar enw a sefydlu tudalen ar gyfer y prosiect.